

DARGANFOD ARLOESED

Rhagfyr 2017 – Chwefror 2018

Statws RAG

- Coch: Dan y targed
- Oren: Bron â chyrraedd y targed
- Gwyrdd: Ar y trywydd iawn y i gyrraedd y targed



Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Prif allbynnau yn ystod y chwarter:

3 Erthygl Dechnegol

Erthyglau technegol a gyhoeddwyd:

GLASWELLTIR AMLRYWOGAETH: A YW'N BRYD YSTYRIED EICH GWREIDDIAU?

GWELL RHEOLAETH AR BRIDD: OSGOI CYWASGU PRIDD

GOFYNION MAETHY FAMOG YN YSTOD BEICHIOGRWYDD

Taflenni gwybodaeth a gyhoeddwyd:

YSGALL – PROBLEM BIGOG!


PIGO NIWEIDIOL MEWN IEIR DODWY

EFFEITHLONRWYDD PORTHANT

OFFER A THECHNEGAI AR GYFER MESUR SWM GLASWELLT: TALDRA NEU ORCHUDDY BORFA (KG DM/HA)

GLASWELLTIR AMLRYWOGAETH

RHEOLITAIL DOFEDNOD



Glaswelltir amlrywogaeth:

- Cyfraddau uwch o gynhyrchiant biomas nac ungrnwd
- Llai o angen am ychwanegu gwrrtaith
- Gall gasglu a storio mwy o garbon mewn pridd a llystyfiant
- Cyfraddau uwch o foamrywiaeth
- Busnes fferm mwy effeithlon

Partneriaeth Arloesi Ewrop



Prosiectau newydd wedi'u cymeradwyo yn ystod y cyfnod hwn:

- Systemau porthiant amgen ar gyfer tir ymylol
- Rheolaeth dail tafol electroffisegol
- Llaeth Nos – asesu'r manteision economaidd a dibynadwyedd
- Merllys organig

Targed Prosiect EIP Cymru 2022

45

Prosiectau yn y broses Ymgeisio

6

Prosiectau a Gymeradwywyd

12



Prosiectau presennol: y wybodaeth ddiweddaraf:

Systemau porthiant amgen ar gyfer tir ymylol

Yn ystod y gwanwyn eleni bydd tair fferm ucheldir yng Nghymoedd y De yn ail-hadu 4-5 hecтар o ucheldir ymylol gyda dau gymysgedd hadau sef gwndwn aml-rywogaeth a rhygwel/meillion gwyn er mwyn cymharu canlyniadau'r ddwy system fel rhan o brosiect EIP 3 blynedd.

Mae tiroedd Cymru'n amrywio'n sylweddol o ran ansawdd a ffrwythlondeb pridd, felly bydd deall effeithiolrwydd gwahanol gyfansoddiadau porfa'n arwain at ddull mwy effeithlon a phenodol o hau glaswellt ar dir ymylol. Os bydd cynyddu amrywiaeth blodau hefyd yn gallu lleihau'r amser gofynnol i besgi wŷn a/neu wella iechyd anifeiliaid, gallai glaswelltir gwirioneddol amlrywoaeth gynnig cyfle i reoli tir ymylol yng Nghymru ar gyfer cynhyrchiant a bioamrywiaeth cyffredinol.

Lleihau'r defnydd o wrthfotigau ar ffermydd defaid dros gyfnod wŷna trwy reoli arfer gorau a gwella maeth a hylendid

Mae'r baich o heintiau gydag ymwrthedd gwrthficrobaidd yn cynyddu ledled y byd ac yn fygythiad difrifol i iechyd anifeiliaid a phobl.

Mae'r prosiect hwn yn datblygu ymhellach ar yr ymchwil bod newid arferion rheoli'r ddiadell, trwy wella maeth a hylendid yn bennaf, yn gallu lleihau'r angen am wrthfotigau, gan gynyddu cynhyrchiant a chadw safon uchel o iechyd a lles anifeiliaid ar yr un pryd.

Teithiau Astudio

Ym mis Chwefror aeth Grŵp Trafod Harlech i'r Alban i ddarganfod sut mae Ystâd Bowhill wedi arallgyfeirio a datblygu busnes ffermio llwyddiannus. O ystyried y cyfnod economaidd anodd presennol a'r newidiadau arfaethedig i daliadau'r Llywodraeth, teimla'r grŵp ei bod hi'n hanfodol bod busnesau amaeth yn edrych ar bob opsiwn. Cafodd y grŵp gyfle i weld sut oedd y busnes yn rhedeg a sut oedd pob menter wedi datblygu. Dysgodd yr aelodau bod meincnodi a chadw cofnodion manwl o gostau, perfformiad ayyb yn hanfodol er mwyn rhedeg busnes llwyddiannus. Cafodd y grŵp daith fferm yn cynnwys y fuches sugno, y ddiadell, y fenter geirw, safle'r dofednod a'r treuliwr anaerobig.

Gan fod y fuches sugno yn cael cyfnod anodd a diddordeb yr aelodau mewn gwahanol fridiau, penderfynnwyd cyfuno'r daith gydag ymweliad â marchnad da byw Cymdeithas Gwartheg Luig yn Castle Douglas. Ar y daith adref, teithiodd y grŵp i ucheldir Cymbria i gael cyflwyniad ac arddangosiad o'r grefft o hyfforddi, magu a pharatoi'r ci defaid ar gyfer gwaith mynydd gan Katy Cropper.

Cliciwch yma i ddarllen mwy am y daith.